

No.

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod Hybrid bell a gynhaliwyd ar 2 Ebrill, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Ball, I. Buckley, C.A. Cave, A.M. Collins, M. Cowpe, E.J. Goodjohn, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards, H.M. Payne ac E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

968 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

969 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R. Fisher.

970 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir.

971 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

972 GWELLIANNAU I'R SAFLEOEDD HAMDDEN COLCOT A BUTTRILLS YN Y BARRI – GALWCH I MEWN – Y CYNGHORYDD DR. I.J. JOHNSON -

Derbyniwyd yr alwad i mewn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson yn dilyn ystyriaeth gan y Cabinet ar 22 Chwefror 2024 (mae Cofnod Rhif C250 yn cyfeirio at hyn). Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson i'r mater gael craffu pellach er

No.

budd tryloywder a budd y cyhoedd, yn unol â'r rhesymau a nodwyd yn y ffurflen cais galw i mewn sydd wedi'i chynnwys ym mhapurau'r agenda.

Dywedodd adroddiad y Cabinet fod angen adnewyddu'r cyfleusterau newid presennol yng Nghanolfan Chwaraeon y Barri yng Ngholcot ar frys gan eu bod wedi mynd i gyflwr gwael ac yn methu ag ateb gofynion pob cwsmer. Nid oedd angen yr hen gae pob tywydd yng Ngholcot mwyach chwaith yn sgil datblygiadau a gwelliannau diweddar yn ysgolion uwchradd y Barri ac yn Ysgol Gynradd Parc Jenner hefyd. O ystyried y ffaith bod yr ystafelloedd newid presennol yng nghanolfan chwaraeon Colcot yn darparu ar gyfer caeau Buttrills, gryn bellter i ffwrdd, roedd cyfle yn bodoli i ystyried gwelliannau i'r cyfleusterau newid ar safle Buttrills yn ogystal â chyfle i greu uwchgyllun ar gyfer y rhan o safle Colcot a oedd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer parcio ceir, yr ystafelloedd newid a'r cae pob tywydd.

Felly, cynigiodd yr adroddiad ddatblygu cyfleuster newid newydd yn y Buttrills a ariannwyd gan grantiau a gwaredu'r rhan ddiangen o hen safle Canolfan Chwaraeon Colcot, sef y rhan a oedd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer y maes parcio, yr ystafelloedd newid, a'r cae pob tywydd. Roedd y cyfle i edrych ar gyfleoedd hamdden yn y dyfodol hefyd yn rhan o'r cynigion cychwynnol, a gallai hyn gynnwys datblygu trac pwmp (beicio) newydd ac ardal chwarae i blant.

Roedd hefyd effeithiau ar ddefnyddwyr eraill y safle presennol yng Ngholcot ac roedd yr adroddiad yn ystyried y rhain a hefyd y camau nesaf i'r defnyddwyr hyn. O ganlyniad i'r cynigion datblygu, argymhellodd yr adroddiad hefyd ddatgan bod rhan o safle Colcot yn ddiangen a hwyluso'r broses o waredu'r rhan honno i'r Cyfrif Refeniw Tai. Dywedodd yr adroddiad fod y cynllun arfaethedig yn cael ei gynllunio i hunan-ariannu trwy gymysgedd o grantiau a derbyniadau cyfalaf.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi'i drefnu yn unol â gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor yn unol ag adran 7.24 Cyfansoddiad y Cyngor ac y byddai ei drefn yn adlewyrchu'r meini prawf a nodir yn Adran 11 y Canllaw ar Gyfranogiad y Cyhoedd yn y Broses Graffu. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle hefyd i atgoffa'r Pwyllgor o'i gylch gwaith i annog a hyrwyddo ffyrdd actif ac iach o fyw, ac felly i ystyried y mater dan yr amcan hwnnw.

Cefnogwyd yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles gan Reolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad a gyflwynodd yr adroddiad.

Pwysleisiodd y Swyddog bwyntiau allweddol mewn perthynas â'r cynnig fel a ganlyn:

- Roedd y cynigion yn canolbwyntio'n gadarn ar wella'n sylweddol y cyfleoedd ar gyfer lefelau uwch o weithgarwch corfforol trwy ddarparu cyfleusterau hamdden o ansawdd yr oedd y Cyngor yn brin ohonynt ar hyn o bryd.
- Yn bennaf, nid oedd y cyfleusterau newid presennol yng Nghanolfan Chwaraeon y Barri (Colcot) yn bodloni disgwyliadau cyfredol defnyddwyr, roedd yr adeilad y tu hwnt i'w ddisgwyliad oes ac nid oedd yn cefnogi pêl-

droed menywod a merched, sef y gamp a oedd yn tyfu gyflymaf ym Mro Morgannwg.

- Meddyliau cyntaf y Cyngor oedd adnewyddu adeilad presennol Colcot neu ei ailadeiladu ar yr un safle. Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghori ag adran eiddo'r Cyngor, ac edrych ar anghenion y dyfodol, ynghyd â materion y safle presennol, fel yr angen i bobl ifanc groesi Colcot Road i gael mynediad at y caeau ar faes hamdden Buttrills, y problemau dros nifer o flynyddoedd gyda pharcio ceir ar safle'r Ganolfan Chwaraeon, roedd y cyfle i wneud y gorau o'r ddau safle ar gyfer gwahanol weithgareddau (pêl-droed mini a phêl-droed 11 bob ochr) yn cynnig llawer o fanteision.
- Cynhaliwyd ymgynghori gyda'r sefydliadau/clybiau hynny a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cabinet.
- Yn sylfaenol i'r cynnig hefyd roedd cyfle i ddenu £500,000 o gyllid grant gan ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBdC) tuag at gyfleuster newydd. Ymgynghorwyd â CBdC ar y cynllun ac roedd yn gefnogol o ystyried yr effaith y dylai ystafelloedd newid newydd ei chael ar safle Buttrills, yn enwedig mewn perthynas â phêl-droed menywod a merched. Roedd cyllid gan CBdC yn gyfle yr oedd y Cyngor am ei weld yn cael ei ddefnyddio ym Mro Morgannwg (y Barri) yn hytrach nag ardal arall o Gymru er cydnabuwyd nad oedd cyllid gan CBdC wedi'i warantu a'i fod yn destun proses ymgeisio. Yn ystod trafodaethau gyda CBdC, roedd yr adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol. Cydnabu CBdC fanteision symud i safle Buttrills a gallu safle Colcot i barhau i ddarparu ar gyfer pêl-droed mini a hyfforddiant oedolion ar y caeau pob tywydd llai a fyddai'n aros yn y lleoliad ac yn cael eu gwasanaethu gan y neuadd chwaraeon mwy newydd ar y safle.
- Er bod grant ar gael i wneud cais amdano mewn perthynas â'r ystafelloedd newid arfaethedig ar safle Buttrills, byddai angen cyllid pellach sylweddol i adeiladu'r cyfleuster. Roedd y cyllid cyfalaf traddodiadol a roddwyd i awdurdodau lleol yng Nghymru yn lleihau'n sylweddol gyda llawer o alwadau am wariant. Felly, wrth ystyried opsiynau ar gyfer y cynllun arfaethedig ar safle Buttrills, cynigiwyd na fyddai'r safle presennol yn Colcot yn cael ei ddefnyddio mwyach ar ôl i'r ystafelloedd newid newydd agor, ac felly byddai cae pob tywydd segur Colcot yn rhoi cyfle i gynhyrchu enillion cyfalaf ar gyfer ailfuddsoddi mewn hamdden.
- Ynghyd â'r argyfwng tai ym Mro Morgannwg, a'r galw penodol am dai yn ardal Colcot, roedd cyfle i ystyried cynnig cysylltiedig â thai ac felly fe'i nodwyd yn adroddiad y Cabinet ar ôl ymgynghori â swyddogion tai.
- Fel y cadarnhawyd yn adroddiad y Cabinet, byddai unrhyw gynigion tai ar gyfer safle Colcot yn destun adroddiad Cabinet pellach a chais cynllunio. Roedd cynlluniau a oedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cydymdeimlo â'r lleoliad ac roedd digwyddiad ymgynghori â'r cyhoedd yn cael ei gynllunio gydag Aelodau Ward Lleol, Swyddogion Hamdden a Thai yn ddiweddarach ym mis Ebrill 2024, ar safle Colcot, i rannu'r cynigion hynny gyda'r gymuned. Byddai manylion y digwyddiad ymgynghori yn cael eu hysbysebu ar wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn y dyfodol agos.
- Ni fyddai unrhyw dir a oedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer chwaraeon wedi'u trefnu yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn cael ei

ddefnyddio ar gyfer y datblygiad tai arfaethedig. Roedd yr un peth yn wir am y datblygiad arfaethedig ar safle Buttrills. Byddai'r ddau safle hefyd â'u darpariaeth parcio ceir pwrpasol eu hunain, a'r gobaith yw y byddai hyn yn lleddfu rhai o'r problemau traffig a oedd yn cael eu profi ar hyn o bryd ar safle Colcot.

- Nid oedd y cae pob tywydd mwy wedi'i leoli ar safle Colcot wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer chwaraeon wedi'u trefnu ers y pum mlynedd diwethaf. Roedd hyn yn dilyn cynigion buddsoddi o ran caeau pob tywydd newydd ar draws y Barri a oedd wedi'u lleoli ar safleoedd ysgolion gan fod hyn yn sicrhau y gellid gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfleusterau gyda defnydd gan ysgolion yn ystod y dydd a defnydd gan y cyhoedd gyda'r nos ac ar benwythnosau. Fel rhan o'r trafodaethau blaenorol wrth ystyried lleoliadau'r caeau ysgol dywededig, ystyriwyd bod y lleoliadau a ddewiswyd yn fwy manteisiol na safle Colcot. Felly, penderfynwyd buddsoddi yn y safleoedd amgen hynny, yn hytrach na chae pob tywydd Colcot a oedd wedi dod i ddiwedd ei oes, ar ôl cael ei sefydlu fel cae pob tywydd llawn tywod yng nghanol y 1990au.
- O ystyried nifer yr arwynebau gwahanol ar gyfer caeau pob tywydd sydd ar gael i ysgolion ar hyn o bryd, gwnaed penderfyniad strategol i sicrhau bod y tair prif gamp sy'n defnyddio caeau pob tywydd â darpariaeth i'w defnyddio; gydag arwyneb ar gyfer Rygbi yn cael ei osod yn Ysgol Uwchradd Bro Morgannwg, arwyneb ar gyfer pêl-droed yn Ysgol Uwchradd Whitmore ac arwyneb ar gyfer Hoci yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre. Gallai pob un o'r caeau uchod hefyd gael eu defnyddio gan y tair camp a grybwyllwyd at ddibenion ymarfer.
- Roedd y Cyngor yn ymwybodol bod sylwadau wedi'u gwneud yn gyhoeddus am yr angen am gae pob tywydd llawn tywod arall yn y Barri, ar safle Colcot, ar gyfer hoci a bod cyllid ar gael ar gyfer hyn gan Hoci Cymru. Nid oedd hyn yn wir gan y gallai'r ysgolion uwchradd lleol hyfforddi ar gyfer hoci ar eu caeau pob tywydd unigol gydag unrhyw gemau rhwng ysgolion yn gallu cael eu chwarae yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre, lle'r oedd cyfleusterau fel toiledau ac ystafelloedd newid ar gael, fel y cadarnhawyd gan y Pennaeth newydd. Mewn cyfarfod gyda Hoci Cymru, cadarnhaodd y sefydliad fod y ddarpariaeth yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre yn bodloni anghenion y Barri ar hyn o bryd ac na fyddai'r Barri yn faes blaenoriaeth ar gyfer cyllido cae ychwanegol ar hyn o bryd.
- Cydnabuwyd hefyd fod cae pob tywydd llawn tywod, fel y'i defnyddir ar gyfer hoci ar lefel clwb ac fel y'i darperir yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre yn llawer llai poblogaidd gyda chwaraeon eraill ac felly'n anoddach i'w roi ar osod na'r arwynebau 3G a ddarperir yng nghaeau pob tywydd eraill yn ardal y Barri. Yn anffodus, nid oedd gan y Barri glwb hoci ar hyn o bryd a dylai un cae pob tywydd ar gyfer hoci allu ateb galw hyd at bedwar clwb. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Hoci Cymru yn y dyfodol i ddarparu cyfleoedd hoci y tu allan i ddarpariaeth Ysgol gyda'r nod o sefydlu clwb annibynnol.
- Ar hyn o bryd roedd Chwaraeon Cymru yn cynnal gwerthusiad o gaeau pob tywydd ledled Cymru a'r arwyddion cynnar o'r astudiaeth honno oedd bod Bro Morgannwg yn cael ei gwasanaethu'n dda o ran darpariaeth caeau pob tywydd maint llawn gyda'r Barri ar hyn o bryd â 4 (gan gynnwys Parc Jenner sy'n eiddo i'r Cyngor), 2 gae ym Mhenarth (gyda'r cae ar gyfer hoci

No.

yn Stanwell ac yn cael ei ddefnyddio gan Glwb Hoci Penarth) a chaeau pellach yn ardaloedd Llanilltud Fawr a'r Bont-faen.

- Nodwyd cyfleusterau eraill yn y cynnig ar gyfer safle Colcot a fyddai'n darparu cyfleusterau hamdden am ddim ychwanegol i'w defnyddio. Roedd y rhain yn cynnwys maes chwarae newydd, a fyddai'n cael ei leoli ger y caeau pob tywydd bach, gan ddarparu gweithgaredd i blant iau a oedd yn aml ar y safle pan oedd eu brodyr/chwiorydd hŷn yn defnyddio'r cyfleusterau pêl-droed yn ogystal â bod ar gael i'r boblogaeth leol bob amser.
- Roedd y trac pwmp yn gyfleuster am ddim arall i'w ddefnyddio a gynigiwyd a dyluniwyd ef i ddarparu ar gyfer pobl ifanc, nad oeddent, yn yr arolwg chwaraeon ysgol diweddar, o reidrwydd â diddordeb mewn chwaraeon tîm ond a oedd eisiau gweithgaredd y gallent ei fynychu'n ddigwmni. Roedd traciau pwmp wedi bod yn hynod lwyddiannus mewn ardaloedd eraill wrth ymgysylltu â darpar ddefnyddwyr a byddent yn adeiladu ar lwyddiant y parc sglefrio yn y Cnap, y Barri, a oedd yn boblogaidd iawn. Arwyddion cynnar ar y prosiect trac pwmp oedd y gallai cyllid grant fod ar gael gan Chwaraeon Cymru yr oedd y buddsoddiad ym Mharc Sglefrio'r Cnap yn y Barri wedi creu argraff fawr arnynt.
- Y gobaith hefyd fyddai ychwanegu cyfleusterau am ddim ychwanegol i'w defnyddio wrth i amser fynd yn ei flaen gydag Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd arfaethedig ymhlith y posibiladau.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog o'r adroddiad, adleisiodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles y pwyntiau fel y nodwyd gan y swyddog a nododd fod cyfleusterau newid ar gyfer pêl-droed yn cael eu darparu'n hanesyddol ar safle Buttrills, fodd bynnag, diddymwyd y rhain pan agorwyd Canolfan Chwaraeon Colcot ym 1963 a oedd yn bodloni pwrpas a gofynion y gamp bêl-droed bryd hynny.

Roedd yn embaras nad oedd gan dref fwyaf Cymru gyfleusterau digonol i gefnogi pêl-droed dynion a menywod ac roedd y cynnig yn gyfle gwych i ddarparu pêl-droed 11 bob ochr i oedolion ar safle Buttrills a phêl-droed i blant dan 7 oed/mini ar safle Colcot.

Roedd Cynghrair Pêl-droed Bro Morgannwg yn ffodus i gael ei chynnwys o fewn Cynghrair yr Alliance gan nad yw ansawdd y caeau yn aml yn bodloni safonau Cynghrair yr Alliance mewn perthynas â chyfleusterau newid a byddai'r cynnig yn sicrhau bod cyfleusterau newid yn cael eu darparu ar safle Buttrills ger y caeau.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet hefyd nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i gaeau pêl-droed ar y naill safle na'r llall felly, byddai'r 10 cae sydd ar gael yn parhau i ddarparu gemau gwasgarog. Y disgwyliad oedd y byddai pêl-droed iau yn cael ei chwarae ar fore Sadwrn gyda phêl-droed dynion wedyn yn cael ei chwarae o amser cinio dydd Sadwrn ymlaen. Byddai pêl-droed menywod wedyn yn cael ei chwarae ar ddydd Sul.

I gloi, dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ffôl i'r Cyngor golli cyfle cyllid CBdC ac felly anogodd y Pwyllgor i gefnogi'r adroddiad fel y'i cyflwynwyd, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor edrych ar welliannau i gyfleusterau hamdden ac nid gofynion tai.

No.

Pe bai unrhyw gynigion tai yn cael eu datblygu yn y dyfodol, wedyn byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar ôl ymgynghori.

Wedyn rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor am ddatganiad ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Gadeirydd Cynghrair Pêl-droed Bro Morgannwg a wahoddwyd i fynychu'r cyfarfod fel tyst arbenigol ond a oedd angen anfon ei ymddiheuriadau. Ar ran y tyst arbenigol, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad yn uchel a ddywedodd fod Cynghrair Pêl-droed Bro Morgannwg yn gwbl gefnogol i'r cynigion a gyflwynwyd i Gabinet y Cyngor ar 22 Chwefror 2024 a bod y cynlluniau wedi cael eu trafod yn helaeth gan Bwyllgor y Gynghrair ac, fel Cadeirydd, roedd wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r cynigion gael eu datblygu.

Aeth y datganiad ymlaen i adleisio'r pwyntiau a godwyd gan y Rheolwr Gweithredol a'r Aelod Cabinet mewn perthynas â'r twf sylweddol ym mhêl-droed menywod a merched yn ogystal â diffyg cyfleusterau addas a oedd yn dal timau yn ôl. Roedd y cyfleusterau presennol yn golygu nad oedd yn bosib i glybiau symud ymlaen gan nad oedd modd eu defnyddio i dimau gael mynediad at gynghreiriau uwch oherwydd rheoliadau meini prawf daear. Roedd hefyd yn amhosib cynnal dwy gêm menywod swyddogol ar yr un safle yn y Barri oherwydd diffyg cyfleusterau newid addas.

Cydnabu'r Cadeirydd hefyd, gydag adleoli'r ystafelloedd newid i safle Buttrills, y gellid parhau i ddefnyddio adeilad presennol Colcot gan alluogi pêl-droed i barhau yn ystod y cyfnod adeiladu.

Nododd y Gynghrair hefyd y cynigion maes parcio a fyddai, gobeithio, yn helpu i aiddosbarthu'r problemau a wynebir yn wythnosol yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot yn ystod y tymor pêl-droed, y gwyddys eu bod yn destun rhwystredigaeth i drigolion lleol.

I gloi, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r gynghrair yn hynod siomedig a rhwystredig pe bai cyfle i ddarparu'r cyfleusterau yr oedd y gynghrair yn teimlo ei bod yn eu haeddu yn cael ei gollu. Cydnabu'r gynghrair y cyfyngiadau ariannol ar gyllideb y Cyngor a'r angen, drwy dai, i gynhyrchu arian ar gyfer y cynnig. Roedd y cyfle i gael mynediad at £500,000 mewn cyllid grant gan CBdC yn ddigynsail a dylid manteisio'n llawn arno ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o bêl-droedwyr ym Mro Morgannwg.

Wedyn dywedodd y Cadeirydd fod pum siaradwr cyhoeddus cofrestredig, yr oedd pedwar ohonynt yn bresennol a bod tair munud o amser siarad wedi'u rhoi i bob un yn unol â pholisi'r Cyngor. Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cadeirydd i bob siaradwr yn ei dro wneud ei sylwadau, y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

Mr. M. Goode

- Enillodd tîm hoci merched dan 18 oed Ysgol Bro Morgannwg Gwpan Hoci Ysgolion Cymru ar gyfer y rhai dan 16 oed ym mis Mawrth 2023 er iddynt gollu mynediad at y cae hoci yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot yn 2019 pan benderfynwyd cau'r cyfleuster oherwydd difrod i'r arwyneb.

No.

- Gyda diffyg atgyweiriadau i gae hoci Colcot, roedd angen i rieni fynd â'r merched ar y tîm hoci i gyfleusterau ym Mhenarth a Chaerdydd i ymarfer a chwarae gemau, ac roedd hyn wedi bod yn digwydd am gyfnod o bedair blynedd.
- Roedd y Cyngor wedi dweud wrth Ysgol Bro Morgannwg am chwarae hoci yn y cyfleusterau newydd yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre, ond nid oedd Ysgol Bro Morgannwg yn gallu archebu'r cyfleusterau yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre ar-lein, nid oedd toiledau na chyfleusterau newid, ac roedd ffensys wedi'u difrodi ger y cyfleuster.
- Dywedwyd na fyddai unrhyw fannau gwyrdd yn cael eu colli o ganlyniad i'r cynigion fodd bynnag, byddai man gwyrdd mawr ar safle Colcot, a oedd gerllaw'r cewyll pêl-droed 3G, yn cael ei ddisodli gan drac pwmp beicio a fyddai'n golygu colli man gwyrdd a ddefnyddir gan gerddwyr cŵn ac ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol eraill. Ni nodwyd yn glir yn yr adroddiad faint neu raddfa'r trac pwmp neu a fyddai'n cael ei ffensio neu'n agored i'r cyhoedd ar bob ochr. O ran mannau gwyrdd o hyd, byddai rhan fawr o gae chwarae Buttrills yn cael ei gwaredu a'i disodli gan y pafiliwn chwaraeon arfaethedig a'r gampfa focsio yn ogystal â dau faes parcio.
- Roedd Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi gwybodaeth am effaith y bwriad i waredu cae chwarae ar iechyd a lles y gymuned, drwy gyfeirio at nifer o strategaethau, cynlluniau ac asesiadau allweddol ar gyfer yr ardal lle mae'r maes chwarae. Gofynnodd Mr Goode wedi hynny a oedd y Cyngor wedi dechrau'r broses honno gan gyfeirio at y rheoliadau ac, os na, pryd y byddai'r gwaith dywededig yn dechrau. Ni fu unrhyw ymgynghori â'r gymuned leol hyd yma ac er gwaethaf addewid sesiwn galw heibio rhywbryd ym mis Ebrill 2024, nid oedd manylion penodol wedi'u rhoi eto.
- Ni fu unrhyw drafodaethau anffurfiol gyda'r trigolion lleol i ofyn am syniadau a/neu ddatrysiad ar gyfer y safleoedd presennol. Nid oedd unrhyw gynigion amgen eraill yn cael eu hystyried a byddai angen i drigolion lleol fyw yn yr ardal, ac roeddent yn gwybod y problemau ar gyfer yr ardal leol, ac felly byddent am gadw a gwella cyfleusterau'r ddau safle.
- Ym mis Hydref 1998 ac eto ym mis Gorffennaf 2007, gorlifwyd naw tŷ ar hyd Woodham Park gan ddŵr o gae chwarae Buttrills ac ers hynny yr unig waith adfer a roddwyd ar waith oedd ffos hir ar gae Buttrills i ddal yr holl ddŵr glaw yn rhedeg oddi ar y cae. Dyma hefyd oedd safle'r maes parcio arfaethedig newydd felly roedd trigolion lleol yn poeni nad oedd y mater llifogydd yn cael ei grybwyll yn y cynnig presennol er bod bygythiad y gallai llifogydd ddychwelyd.
- Roedd trigolion lleol yn ceisio bod yn gadarnhaol am y cynigion, fodd bynnag, roedd angen ystyried y gost raddfa o £2.5m a'r arwyddocâd i'r ddwy gymuned gyfagos yn fwy ac roedd angen mwy o gyfathrebu gweithredol yn eu cylch.
- Credwyd y byddai'r cynnig yn rhannu'r ddwy gymuned leol ond yn hytrach roedd wedi dod â'r ddwy gymuned yn agosach at ei gilydd.

Yn dilyn galwad y Cadeirydd am unrhyw bwyntiau o eglurhad gan Aelodau'r Pwyllgor o ran yr hyn a ddywedodd y siaradwr cyhoeddus, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles na fyddai unrhyw gaeau 3G yn cael eu

No.

colli ar safle Colcot. Rhoddodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad eglurder pellach hefyd mewn perthynas â phwynt eglurhad y Cynghorydd Buckley ar ddatganiad Mr Goode i'r diffyg cyfleusterau sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre. Eglurodd Mr Goode nad oedd staff addysgu yn gallu dod yn agos at y cyfleusterau yn yr ysgol sydd eu hangen arnynt i gynnal gweithgareddau ar lefel gynaliadwy a bod y cyfleusterau ar gael yn ystod oriau ysgol yn unig.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod pennaeth newydd wedi'i benodi'n ddiweddar yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre a'i fod wedi cadarnhau i'r Cyngor y byddai'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr ysgol ar gael i'w defnyddio yn yr ysgol yn ogystal ag i'w rhoi ar osod i unrhyw glwb neu sefydliad allanol. Nid oedd system archebu awtomatig ar waith ar hyn o bryd ond roedd y rhif ffôn a'r trefniadau gosod ar gael. Yn anffodus, nid oedd clwb hoci gweithredol yn ardal y Barri ar hyn o bryd ac felly, nid oedd yn syndod nad oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw ymholiadau i ddefnyddio cae Pencoedtre y tu allan i oriau ysgol.

Wedyn cododd y Cadeirydd bwynt olaf o eglurhad ar gyfer Mr Goode a gofynnodd ar ôl datganiad Mr Goode a oedd tîm hoci ar waith yr oedd ei angen cludo pobl ifanc y tu allan i ardal y Barri ar ei gyfer. Cadarnhaodd Mr Goode fod dealltwriaeth y Cadeirydd yn gywir ac eglurodd, oherwydd bod y cae cyfagos ar safle Colcot ar gau, fod angen i staff Ysgol Bro Morgannwg gludo plant ysgol y tu allan i'r ardal, fodd bynnag, oherwydd nifer y plant cysylltiedig, roedd angen i staff ysgol drefnu pa hanner o'r grŵp hoci y byddent yn ei gludo ym mws mini'r ysgol.

Mr. G. Pooley

- Wrth edrych ar y cynnig o safbwynt mwy, nid oedd yn glir sut y byddai cynnig i adeiladu tai a meysydd parcio newydd ar dir gwyrdd yn helpu gyda lles trigolion lleol. Dangoswyd yn ystod pandemig cenedlaethol Covid-19 bod angen mannau gwyrdd ac roedd y cyfrifiad diwethaf ar gyfer yr ardal yn dangos cynnydd yn nifer y bobl dros 65 oed a oedd ag angen mannau hamdden ffurfiol ac anffurfiol.
- Roedd corff cynyddol o dystiolaeth feddygol i gefnogi manteision rhannu amser gydag eraill a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol mewn amgylchedd awyr agored i wella amrywiaeth o gyflyrau meddygol.
- Helpodd mannau gwyrdd bobl i fyw bywydau annibynnol, ac roedd hyn yn gynyddol bwysig o ystyried y cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio yn ardal dref boblog iawn y Barri.

Mr. J. Giles

- Nid oedd y cynnig a gyflwynwyd yn ymwneud â phêl-droed yn unig, ond cytunwyd bod cyflwr y cyfleusterau yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot yn drosedd ac mai'r bobl a oedd yn atebol am y drosedd honno oedd yr Aelodau Etholedig a oedd yn eistedd ar hyn o bryd yn Siambr y Cyngor ac oedd wedi eistedd ynnddi yn y gorffennol.
- Roedd yn hynod anghyfrifol i'r Cyngor ystyried y cynlluniau heb ymgynghori'n gyntaf â'r trigolion sy'n byw o amgylch Canolfan Chwaraeon Colcot, a chyfrifoldeb y trigolion fel ceidwaid y dref oedd sicrhau bod

cyfleusterau hamdden yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- Nid cyfleusterau chwaraeon yn unig oedd y ddau safle ond yn fannau ar gyfer hamdden nad oedd yn ymwneud â chwaraeon hefyd ac roeddent yn cyfrannu at iechyd a lles cyffredinol llawer o drigolion yn y cymunedau lleol. Felly, heb os, byddai lleihau'r manau gwyrdd sydd ar gael yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl a chorfforol pobl. Byddai man gwyrdd wedi mynd am byth ar ôl cael ei waredu.
- Er gwaethaf degawdau o esgeulustod, roedd adeilad Canolfan Chwaraeon Colcot yn dal yn gadarn gyda pharcio, draenio, carthffosiaeth, cyflenwad pŵer a seilwaith arall i'r adeilad yn gadarn ac ar waith. Sefydlwyd y cae pob tywydd, er bod angen ei foderneiddio.
- Nid oedd y gampfa focsio yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot eisiau symud.
- Roedd cyfleuster neuadd chwaraeon Colcot wedi'i hen sefydlu gyda seilwaith priffyrdd ar waith a mynediad hawdd oddi ar Colcot Road. Felly, byddai buddsoddi yn y safle a'r adeilad presennol nid yn unig yn llawer rhatach ond byddai hefyd yn creu llawer llai o darfu ac ni fyddai'n achosi'r problemau traffig y byddai mwy na 200 o gerbydau ychwanegol ar safle Buttrills yn eu hachosi.
- Roedd traffig eisoes yn gorlifo i'r strydoedd cyfagos ar safle Colcot a Buttrills ac felly byddai ynysu parcio i safle Buttrills nid yn unig yn effeithio'n wael ar y trigolion lleol, ond byddai hefyd yn berygl i gerddwyr.
- Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer y math o ddatblygiad a gynigiwyd a nododd y dylai pob cae chwarae p'un a yw'n eiddo i sefydliadau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol gael ei ddiogelu rhag datblygu ac eithrio lle gellid cadw a gwella cyfleusterau trwy ailddatblygu rhan fach o'r safle. Fodd bynnag, nid oedd y cynnig yn rhan fach o'r safle mewn unrhyw ffordd, gan ei fod ymhell dros 50% o dir canolfan chwaraeon Colcot gan gollir maes parcio, y neuadd a'r cae pob tywydd mawr.
- Nid oedd y cynnig a oedd yn cael ei ystyried o fudd cymunedol ond yn hytrach dim ond budd chwaraeon. Nid oedd y cynnig o fudd i'r gymuned gyfan, gan fod ardal hamdden canolfan chwaraeon Colcot yn cael ei lleihau gan dros 50% ac roedd ardal hamdden safle Buttrills yn cael ei lleihau gan tua 20%.

Mr. A. Bevan

- Roedd y cyllid gan CBdC yn swm sylweddol a fyddai'n caniatáu ailddatblygu safle presennol Colcot a lliniaru'r angen i'r Cyngor amharu ar y tir ymhellach. Dywedodd crynodeb gweithredol adroddiad y Cabinet fod y cyfleusterau presennol yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot wedi dirywio ac nad oeddent yn bodloni gofynion yr holl gwsmeriaid. Fodd bynnag, dadleuwyd nad oedd y cynlluniau newydd yn bodloni gofynion yr holl gwsmeriaid ac y byddai rhai o'r cwsmeriaid presennol yn cael rhybudd i adael heb unrhyw ddarpariaethau wedi'u gwneud ar gyfer lle y byddai eu gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu cynnig yn y dyfodol h.y., y feithrinfa sy'n gweithredu ar safle Colcot ar hyn o bryd.
- Fel cefnogwr pêl-droed brwd, roedd Mr Bevan yn aelod o CBdC a oedd wedi talu'n llawn am ei aelodaeth ac felly cefnogodd yn llawn y ffaith y dylai fod cyfleusterau chwaraeon digonol.

No.

- Fel tad i dair merch ifanc, cefnogodd Mr Bevan yr angen am gyfleusterau digonol i gefnogi merched ifanc a menywod ifanc i fwynhau chwaraeon gyda chyfleusterau newid digonol. Fodd bynnag, roedd Mr Bevan hefyd yn dymuno i'w ferched gael y cyfle i chwarae chwaraeon eraill heblaw pêl-droed i ddarganfod pa chwaraeon a oedd yn briodol i'w grŵp oedran y byddai'n well ganddynt. Felly, byddai cae pob tir yn fuddiol.
- Roedd y feithrinfa a oedd yn gweithredu ar safle Colcot ar hyn o bryd yn hyrwyddo addysg a datblygiad plant drwy'r Gymraeg, o ddwy oed i oedran ysgol, gan alluogi disgyblion i ddod yn ddwyieithog. Gellir dadlau bod hyn yn gwneud y feithrinfa yn fwy na meithrinfa yn unig yn y ffordd y cafodd ei disgrifio yn yr adroddiad. Dywedodd yr adroddiad hefyd y byddai cymorth i'r feithrinfa ddod o hyd i safle amgen a bod sawl canolfan gymunedol yn yr ardal leol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y datganiad bod canolfannau cymunedol yn yr ardal gyfagos yn orliwiad ac roedd y Cyngor wedi anwybyddu'r ffaith bod y feithrinfa yn darparu gofal coffleidiol i Ysgol Bro Morgannwg bob dydd lle roedd plant yn gallu cerdded i'r feithrinfa ac ohoni. O ystyried oedran y plant dan sylw, roedd yn gwbl anymarferol a byddai'n cael effaith niweidiol ar y gwasanaeth coffleidiol a fyddai'n mynd yn erbyn menter Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Nododd paragraff 1.3 adroddiad y cynnig fod adeilad chwaraeon Colcot mewn cyflwr gwael iawn a'i fod tu hwnt i'w oes disgwylidig, ac roedd yn warthus bod y Cyngor wedi caniatáu i eiddo sy'n perthyn iddo gael ei ddefnyddio a gwasanaethu trigolion mewn cyflwr mor wael. Felly, dyfalwyd bod y Cyngor wedi caniatáu i ddirywiad yr adeilad ddigwydd yn fwriadol ar gyfer yr union bosibilrwydd/cynnig ac ymarfer ennill arian i werthu'r safle ar gyfer tai.
- Dywedwyd nad oedd y cae pob tywydd ar safle Colcot wedi cael ei ddefnyddio ers pum mlynedd, fodd bynnag, roedd yn bwysig cydnabod bod cymdeithas wedi cael ei heffeithio o leiaf hanner yr amser hwnnw gan fesurau cadw pellter cymdeithasol oherwydd y pandemig cenedlaethol ac felly nid oedd modd defnyddio llawer o gyfleusterau. Roedd yn chwethrinllyd meddwl bod cyfleuster amblwrpas ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer chwaraeon eraill, ond y cynnig oedd cael ei waredu.
- Roedd Mr Bevan yn awyddus i glywed rhai o'r ystadegau ar gyfer nifer y damweiniau a ddigwyddodd i dynnu sylw at y groesfan o safle Colcot i safle Buttrills fel pryder diogelwch, fel y dyfynnwyd yn yr adroddiad, ond ni wnaeth y cynnig ymhelaethu ar y pryderon diogelwch dywededig.
- Dywedwyd nad oedd y cynnig mewn perthynas â thai, ond dadleuwyd bod y cynnig mewn gwirionedd ynghylch tai o ystyried yr effaith yn y pen draw ar drigolion lleol. Roedd trigolion y Barri wedi gweld datblygiadau tai ers dros ddegawd yn ardal newydd y Glannau yn ogystal ag ym Mharc yr Iwerydd, ac roedd caniatadau wedi'u ceisio ar gyfer safle Coleg y Barri ar Colcot Road. Felly, roedd y datganiad ynglŷn â thai mawr ei angen yn anwybodus.

Yn dilyn y sylwadau a wnaed gan y siaradwyr cyhoeddus cofrestredig, cadarnhawyd gan y Cadeirydd nad oedd unrhyw bwyntiau pellach o eglurhad i'r siaradwyr ac felly, croesawodd y Cadeirydd gyfraniadau gan unrhyw Aelod nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor a gwahoddodd gwestiynau i'r Cynghorydd Dr. Johnson yn y lle cyntaf fel yr Aelod a gododd yr alwad i mewn.

Dechreuodd y Cynghorydd Dr. Johnson drwy ddweud nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ac felly nid oedd ganddo hawl i bleidleisio yn y mater a'i fod yn gynrychiolydd ar gyfer Ward Buttrills yn y Barri, fodd bynnag, nid oedd ffin y Ward yn cynnwys safle cae Buttrills a oedd yn cael ei ystyried. Roedd y Cynghorydd Dr. Johnson yn perthyn i'r gymuned bêl-droed ym Mro Morgannwg, ond nid oedd hyn yn arwain at unrhyw ragfarn o ran ei ddatganiad ond i sicrhau ei fod mewn sefyllfa wybodus i sicrhau bod y cyfleusterau gorau ar gael ar gyfer pob camp ym Mro Morgannwg.

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson ei fod wedi galw y mater i mewn i sicrhau trafodaeth ehangach a rhoi cyfle i bobl gyffredin leisio eu barn ar y pwnc a oedd yn amlwg o bwys iddynt. Wedyn aeth y Cynghorydd Dr. Johnson ymlaen i godi pwyntiau pellach ar yr adroddiad fel y cyflwynwyd, y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Casglwyd y Pwyllgor i drafod egwyddorion y cynnig yn hytrach na manylion oherwydd byddai mwy o fanylion ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad ar y datblygiadau pe bai'r Pwyllgor yn cymeradwyo argymhellion blaenorol y Cabinet.
- Roedd safle Colcot yn rhan o ddatblygiad Gogledd y Barri ar ddiwedd y 1950au gyda'r Ganolfan Chwaraeon yn agor yn 1963. Erbyn hyn roedd y ganolfan dros 60 oed ac yn ystod ymweliad â'r safle yn gynharach yn y dydd, nododd y Cynghorydd Dr. Johnson na fu llawer o newid i'r cyfleuster ers iddo chwarae yno ei hun yn yr 1980au.
- Adeisiodd y Cynghorydd Dr. Johnson sylwadau siaradwyr blaenorol ei bod yn drist iawn gweld nad oedd safle Colcot na'r cyfleusterau wedi'u datblygu dros y degawdau, ond cydnabuwyd bod y Cyngor wedi cyrraedd pwynt lle nad oedd y cyfleusterau'n dderbyniol mwyach, yn enwedig mewn perthynas â hyrwyddo pêl-droed menywod.
- Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson am fwy o wybodaeth mewn perthynas â'r cynigion o ran a) sut y byddai'r cynnig yn effeithio ar y feithrinfa bresennol ar y safle, b) hyrwyddo'r Gymraeg yn ardal y Barri ac c) effaith ar Ysgol Bro Morgannwg ac Ysgol Uwchradd Whitmore a'r galw amdanynt mewn perthynas â chyfleusterau cae hoci. Roedd dwy ochr i'r cynnig, hamdden yn ogystal ag addysg.
- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a oedd cynllun busnes ar waith ar gyfer y trac pwmp arfaethedig a'r man chwarae ar safle Colcot a dywedwyd bod angen mwy o wybodaeth mewn perthynas â ffrydiau cyllido a nifer y defnyddwyr a ragwelir.
- Pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu, a bod maes parcio newydd yn cael ei osod ar safle Buttrills i gefnogi'r adeilad pafiliwn newydd, byddai angen sicrwydd gan swyddogion mewn perthynas â llifogydd posibl ar ochr ddeheuol cae Buttrills i roi sicrwydd i drigolion sy'n byw yn y cyffiniau agos. Cydnabuwyd y byddai'r mater yn cael ei ystyried yn fwy fel rhan o'r broses gynllunio ffurfiol, fodd bynnag, byddai sicrwydd ar hyn o bryd yn cael ei werthfawrogi.

Gyda chaniatâd y Pwyllgor, gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Loveluck-Edwards i siarad gerbron y Pwyllgor yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Ward lleol. Ar ran ei hun ac Aelod Ward arall yr ardal, y Cynghorydd E.J. Goodjohn, dywedodd y

No.

Cynghorydd Loveluck-Edwards ei fod yn croesawu'r alwad i mewn i ehangu'r drafodaeth a rhoi mwy o wybodaeth ffeithiol i'r holl bartïon â diddordeb. Cydnabuwyd y byddai unrhyw gynneg yn cyflwyno dadleuon emosiynol ac roedd yn dda gweld y mater fel democratiaeth ar waith.

Roedd y cynneg a gyflwynwyd yn ymwneud â Ward Dyfan yn y Barri ac roedd y manylion a roddwyd yn yr adroddiad mewn perthynas ag egwyddor y cynneg ac nid unrhyw gynlluniau neu ganiatadau ffurfiol.

Aeth y Cynghorydd Loveluck-Edwards ymlaen i roi gwybod i'r Pwyllgor am gwynion rheolaidd a dderbyniwyd ganddo yn ystod y tymor pêl-droed mewn perthynas ag anhrefn traffig a phobl ifanc nad oeddent yn fodlon defnyddio'r cyfleusterau oherwydd eu cyflwr ar safle Colcot. Fel rhiant i blant a oedd yn defnyddio'r cyfleusterau, roedd gan y Cynghorydd wybodaeth uniongyrchol am y cyfleusterau ond nododd fod ei brofiadau mewn perthynas â bechgyn yn cymryd rhan mewn chwaraeon tra nad oedd merched hyd yn oed yn cael cyfle i gymryd rhan.

Roedd y Cyngor yn dymuno creu amgylchedd cynhwysol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth, ac roedd yn ffaith bresennol na fyddai plentyn ag anableddau yn gallu cael mynediad at ganolfan bresennol Colcot ac nid oedd y gost i adnewyddu'r adeilad ar y safle presennol yn ymarferol. Nodwyd hefyd fod pwnc lles plant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg dan sylw ar hyn o bryd ac felly, byddai mynediad at gyfleusterau hamdden am ddim yn fuddiol. Pe na bai'r Cyngor yn manteisio ar y cyfle i gael cyllid i gefnogi'r cynneg, yna byddai'n methu â chefnogi merched a phlant ag anableddau i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

Ar ôl clywed gan yr holl bartïon gwahoddedig, agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i Aelodau'r Pwyllgor a gwahoddodd y Cynghorydd Goodjohn i siarad yn ei rôl fel Aelod Ward lleol.

Dechreuodd y Cynghorydd Goodjohn drwy nodi sylwadau dig a oedd wedi'u rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â'r cynneg ac roedd yn drist iawn oherwydd y ffaith ei bod yn ymddangos bod y sylwadau dywededig yn deillio o wybodaeth anghywir mewn perthynas â'r cynneg. Roedd y sylwadau'n awgrymu bod y Cyngor wedi ceisio sleifio'r cynneg drwyddo, ond nid oedd hynny'n wir, gan fod yr adroddiad gerbron y Pwyllgor yn dangos cynneg cychwynol yn unig ac nad oedd cais cynllunio ffurfiol wedi'i gyflwyno.

Dyweddodd y Cynghorydd Goodjohn hefyd fod llawer am y cynneg a oedd yn gwneud synnwyr a bod cyfleusterau mwy newydd eisoes ar gael ar safle Colcot, yn ogystal â sawl canolfan gymunedol yn yr ardal lleol, yn ogystal â chaeau pob tywydd amgen mewn ysgolion uwchradd lleol.

Roedd angen amlwg am gyfleusterau newid ychwanegol yn ogystal â meysydd parcio newydd i reoli traffig prysur ar safle Colcot. Fel defnyddiwr rheolaidd a Chadeirydd Canolfan Gymunedol Buttrills, derbyniodd y Cynghorydd Goodjohn adroddiadau rheolaidd gan staff y ganolfan ynghylch unigolion yn newid ac yn mynd i'r toiled y tu allan i adeilad Canolfan Gymunedol Buttrills gan nad oedd

No.

cyfleusterau ar gael ar safle Buttrills ar hyn o bryd. Felly, byddai'r cynigion yn sicrhau urddas i bawb.

Ychwanegodd y Cynghorydd Goodjohn nad oedd yn cefnogi adeiladu ar gaeau gwyrdd, ond dim ond ar ychydig iawn o gae Buttrills yr oedd y cynnig yn awgrymu datblygu arno a byddai'r cynnig ei gwneud yn haws i'r gymuned leol gyfuno â'r ddarpariaeth bêl-droed. Felly, teimlwyd y dylai'r Pwyllgor gefnogi'r cynnig er mwyn symud ymlaen gyda chais am gyllid CBdC ar gyfer ardal Bro Morgannwg yn y gobaith y byddai'r cais am gyllid yn llwyddiannus.

Roedd mwyafrif yr ymholiadau a dderbyniwyd gan aelodau Ward Dyfan mewn perthynas â'r cynnig yn ymwneud â datblygu tai. Fodd bynnag, roedd y cynnig yn canolbwyntio ar gyfleusterau hamdden ar gyfer pobl hŷn a phobl ifanc a byddai'n darparu mwy o gyfleusterau am ddim i'r gymuned leol eu defnyddio. Roedd y Cynghorydd Goodjohn hefyd am sicrhau bod y rhai â llais tawelach yn cael eu cynrychioli a chroesawodd yr holl ohebiaeth gan drigolion lleol.

Wedyn dywedodd y Cynghorydd Norman, yn ei phrofiad o eistedd ar y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant hefyd, y cydnabuwyd bod anawsterau wrth ennyn diddordeb merched yn eu harddegau mewn gweithgareddau chwaraeon ac felly, byddai'r cynnig yn rhoi cyfle i'r Cyngor gynnig mynediad ac urddas i fenywod a merched.

Wedyn manteisiodd yr Is-gadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am yr ymweliad safle a gynhaliwyd yn gynharach y bore hwnnw ac, o ganlyniad, nododd fod angen i'r cyfleusterau presennol gael eu diweddarau. Adeisiodd y Cynghorydd y sylwadau a godwyd yn flaenorol mewn perthynas â phwysigrwydd hyrwyddo chwaraeon menywod yn ogystal â manteisio ar y cyfle o gael y cyllid sydd ar gael.

O ran rhanddeiliaid a oedd yn defnyddio adeilad Canolfan Chwaraeon Colcot ar hyn o bryd, nododd yr Is-gadeirydd fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda phob parti ac, mewn perthynas â'r clwb bocsi ar y safle, cydnabuwyd mai dewis y clwb bocsi oedd aros gyda'r Ganolfan Chwaraeon a chyda'r lefel bresennol o gyfleusterau. Roedd y feithrinfa ar y safle wedi symud i safle Colcot yn gymharol ddiweddar ac wedi cael nifer o symudiadau yn y gorffennol. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, byddai'n cael ei chefnogi i ddod o hyd i lety arall. Felly, croesawodd yr Is-gadeirydd yr adroddiad ac wedi hynny argymhellodd fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad fel y'i cyflwynwyd.

Cytunodd y Cadeirydd fod angen cyfleusterau newydd ar safle Colcot, fodd bynnag, roedd yn dymuno codi argymhelliad i fynd yn ôl i'r Cabinet i ofyn am amcangyfrifon cost ar gyfer adeiladu cyfleuster newydd o gymharu â gweithredu gwaith adnewyddu ar safle presennol Colcot. Roedd angen i'r Cyngor wneud penderfyniad yn seiliedig ar y gwerth gorau i'r Cyngor a byddai'r wybodaeth am yr amcangyfrifon yn rhoi'r cyfle hwnnw.

Gyda chaniatâd y Pwyllgor, dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'n hapus i ystyried unrhyw beth a gyflwynwyd i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu ond ei fod yn dymuno pwysleisio bod yr adroddiad gerbron y Pwyllgor yn gynnig ac nid yn gynllun. Gallai cynigion gymryd cryn amser i ddwyn ffrwyth ac wrth ystyried gwaith

No.

mewn perthynas â darpariaeth anstatudol, roedd yn rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i gyllid a chydbwysu yn erbyn angen. Er enghraifft, gwnaeth y parc sglefrio yn y Cnap yn y Barri ddwyn ffrwyth trwy sawl ffrwd gyllido ac, mewn perthynas â chyllid CBdC, pe na bai gan y Cyngor adeiladau hamdden a oedd yn bodloni safonau rheoleiddio presennol, yna ni fyddai'n cael y cyllid grant beth bynnag. Pe bai'r cynnig yn troi'n gynllun, byddai angen ei gostio'n llawn bryd hynny a byddai'n cael ei adrodd ymhellach i Gabinet y Cyngor am nifer o resymau.

Yn dilyn hynny, eiliodd y Cynghorydd Cave yr argymhelliad fel y'i codwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor ond cyn mynd i bleidlais, croesawodd y Cadeirydd ymateb gan y Rheolwr Gweithredol mewn perthynas â sylwadau a godwyd gan Aelodau Etholedig hyd yma.

Yn dilyn hynny, cododd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad bwyntiau ychwanegol o gyngor fel a ganlyn:

- Roedd y swyddogion wedi ymgynghori â'r clwb bocsiu mewn perthynas â'r cynigion ac roedd y clwb wedi mynegi dymuniad i ehangu ei weithrediad.
- Mewn perthynas â llifogydd, pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, yna byddai angen iddo ystyried unrhyw oblygiadau llifogydd neu ddraenio dŵr fel rhan o'r broses cais cynllunio ffurfiol.
- Cafodd y feithrinfa yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot ei hailgartrefu yng nghanolfan Colcot o safle Gerddi Alexander o ganlyniad i adnewyddu adeilad Gerddi Alexander. Ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu yng Ngerddi Alexander, cynigiwyd cyfle i'r feithrinfa ddychwelyd ond dewisodd aros ar safle presennol Colcot gan fod y feithrinfa yn dymuno aros yn agos i ysgol uwchradd Bro Morgannwg.
- Roedd pensaer y Cyngor wedi ystyried adeilad presennol Colcot, a barnwyd y byddai angen to newydd yn ogystal ag ystafell beiriannau ac, hyd yn oed wedyn gyda diweddariadau, byddai'n anodd bodloni gofynion cyllid CBdC. Felly, ni fyddai diweddarau'r safle presennol yn golygu bod y ganolfan yn addas i'w defnyddio o hyd a byddai'r cynnig fel y nodwyd yn cyfateb i awydd y Cyngor am gyfleusterau addas at y diben a thwff hamdden.
- Roedd y cyfle i wneud cais am gyllid CBdC ar hyn o bryd yn ddigynsail.
- O ran darpariaeth ysgolion lleol, nid oedd hyn o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu ac felly nid oedd y swyddog yn gallu cynghori adeg y cyfarfod.
- Roedd y caeau pob tywydd newydd eu hadeiladu a oedd ar gael ar hyn o bryd ym mhob ysgol uwchradd yn y Barri yn addas i'w defnyddio ar gyfer y gamp hoci. Roedd penaethiaid Ysgol Uwchradd Whitmore ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre wedi dweud nad oedd angen defnyddio'r cae ar safle Colcot o blaid defnyddio eu rhai eu hunain yn yr ysgolion.

Yn dilyn hynny, eiliodd y Cynghorydd Goodjohn yr argymhelliad fel y codwyd gan Is-gadeirydd y Pwyllgor a dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democraidd a Craffu fod dau Gynnig wedi'u cyflwyno ac y byddai pleidlais arnynt yn nhrefn eu cyflwyno.

No.

Mewn ymateb, cydnabu'r Cadeirydd mai cynnig yn unig oedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor ar hyn o bryd, fodd bynnag, ailadroddodd y byddai'n galonogol ateb rhai o'r cwestiynau cost tra bod y Pwyllgor yn ystyried y cynnig.

Cwestiynodd yr Is-gadeirydd fudd argymhelliad y Cadeirydd oherwydd y ffaith y byddai'r cynnig yn destun ymgynghoriad ac yna'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach. Gallai'r broses o chwilio am bartneriaid cyllido gymryd blynyddoedd sylweddol ac felly nid oedd yn bosibl delio â ffrydiau cyllido neu gostio cywir ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr egwyddor ar gyfer gwell cyfleusterau ac roedd hynny'n amlwg.

Wedyn ailadroddodd y Cadeirydd nad oedd ei argymhelliad mewn perthynas â nodi partneriaid cyllido yn y dyfodol ond yn hytrach edrych ar amcangyfrif o gostau a allai fod o fudd i benderfyniad terfynol ar y cynnig. Wedyn, dymunai Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad ychwanegu bod y Cyngor wedi ystyried adnewyddu canolfan chwaraeon bresennol Colcot yn y lle cyntaf, ond nodwyd yn fuan na allai gwaith adnewyddu fodloni cymorth cyllido CBdC ac roedd y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am y grant bellach wedi mynd heibio.

Wedyn dywedodd y Cyngorydd Cave nad oedd yn cytuno â dadl yr Is-gadeirydd mewn perthynas â pheidio â derbyn argymhelliad y Cadeirydd a rhoddodd y farn na fyddai'r Pwyllgor yn gallu penderfynu beth oedd orau nes bod yr holl wybodaeth mewn perthynas â'r cynnig ar waith fel rhan o ymgynghoriad effeithiol.

Yn dilyn hynny, mynegodd y Cyngorydd Cowpe bryder o ran y cynnig yn cael ei ohirio pe bai'r Pwyllgor yn codi argymhelliad i'w gyflwyno yn ôl i'r Cabinet, a dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, yn unol â gweithdrefn galw i mewn y Cyngor, fod yr 11 argymhelliad a godwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2024 wedi'u gohirio ar hyn o bryd ac ni allai'r swyddogion eu symud ymlaen nes bod y weithdrefn galw i mewn wedi dod i ben a bod penderfyniad terfynol ar y mater wedi'i wneud.

Yn dilyn hynny, aeth y Cadeirydd â'r mater i bleidlais gan gymryd pob cynnig a oedd wedi'i gyflwyno yn ei dro. Roedd holl Aelodau'r Pwyllgor, ar wahân i'r Cyngorydd Fisher, yn bresennol a gwnaethon nhw fwrw eu pleidlais. Methodd cynnig/argymhelliad y Cadeirydd, a phasiwyd cynnig/argymhelliad yr Is-gadeirydd.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r holl gyfranogwyr am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.

ARGYMHELLWYD cynnwys adroddiad y Cabinet, ac felly cadarnhau penderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 22 Chwefror 2024.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod.